SL(6)405 – Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru (at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43) (Deddf 1990)) gyda'r nod o sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hyrwyddo ailgylchu o safon uchel. Mae'r gofynion gwahanu yn gymwys mewn cysylltiad â phob mangre ac eithrio eiddo domestig a charafannau. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i ysbytai gyflwyno gwastraff ar wahân i'w gasglu tan 6 Ebrill 2026.

Caiff gofynion gwahanu eu pennu mewn perthynas â chyflwyno gwastraff i'w gasglu (rheoliad 3), casglu gwastraff (rheoliad 4) a thrin gwastraff sydd wedi ei gasglu (rheoliad 5).

Diffinnir "ffrydiau gwastraff ailgylchadwy" yn rheoliad 2 i olygu:

(a) gwydr;

(b) cartonau a'u tebyg, metel a phlastig;

(c) papur a cherdyn;

(d) gwastraff bwyd;

(e) offer trydanol ac electronig gwastraff bach nas gwerthwyd; ac

(f) tecstilau nas gwerthwyd.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ffrwd wastraff ailgylchadwy gael ei chyflwyno ar wahân er mwyn ei chasglu. Rhaid i'r rheini sy'n casglu gwastraff o'r fath, gasglu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân (rheoliad 4). Ni chaniateir i'r rheini sydd wedyn yn trin y gwastraff hwnnw ei gymysgu ag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall na'i gymysgu â mathau eraill o wastraff neu ddeunyddiau neu eitemau eraill (rheoliad 5). Pan fo meddiannydd mangre yn mynd â gwastraff a reolir i fan casglu canoledig (er enghraifft, canolfan ailgylchu gwastraff mae hyn yn gyfystyr â "cyflwyno i'w gasglu" o dan y Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adrannau 46 (daliedyddion ar gyfer gwastraff aelwydydd) a 47 (daliedyddion ar gyfer gwastraff masnachol neu ddiwydiannol) o Ddeddf 1990 i egluro'r berthynas rhwng gofyniad a osodir gan awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru drwy hysbysiad o dan yr adrannau hynny a'r gofynion a nodir yn adran 45AA a'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 (O.S. 2011/988) er mwyn cyfyngu ar gymhwyso, o ran Cymru, reoliadau 13 (dyletswyddau mewn perthynas â chasglu gwastraff) a 14 (dyletswydd mewn perthynas â gwastraff sydd wedi ei gasglu) o'r Rheoliadau hynny i eiddo domestig a charafannau.

Mae'r troseddau mewn cysylltiad â thorri'r gofynion gwahanu wedi eu cynnwys yn adran 45AA(8) o Ddeddf 1990.

Mae cyfundrefn sancsiynau sifil yn cael ei chyflwyno i alluogi'r rheoleiddiwr (Cyfoeth Naturiol Cymru) i osod cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sy'n ymwneud â'r sancsiynau sifil, gan gynnwys apelau. Mae apelau i'w cyflwyno i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Mae Atodlen 2 yn darparu bod rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio sancsiynau sifil. Rhaid hefyd gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio cosbau am beidio â chydymffurfio a hysbysiadau adennill cost gorfodaeth. Cyn i unrhyw ganllawiau gael eu cyhoeddi, mae'n ofynnol i'r rheoleiddiwr ymgynghori. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ynghylch camau gorfodi a gymerir gan y rheoleiddiwr. Mae'r rheoleiddiwr yn gallu adennill costau penodol gorfodaeth yn achos cosbau ariannol amrywiadwy. Mae'r rheoleiddiwr yn gallu adennill unrhyw gosb ariannol benodedig, unrhyw gosb ariannol amrywiadwy neu unrhyw gosb am beidio â chydymffurfio a osodir gan y rheoleiddiwr o dan y Rheoliadau ynghyd ag unrhyw gosb ariannol am dalu'n hwyr.

Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodir y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn rheoliad 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, yn y rhestr o ddiffiniadau, ceir diffiniad ychwanegol sydd ddim i'w gael yn y testun Saesneg, sef "person sy'n gweithredu yng nghwrs busnes". Mae'r diffiniad hwn yn ymddangos yn gywir yn ddiweddarach yn nhestun y ddwy iaith yn rheoliad 5(2) a dyna'r unig reoliad lle defnyddir y term yn y Rheoliadau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Ym mhenawdau Rhan 4 a rheoliad 7, caiff teitl "Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990" ei ailadrodd yn llawn yn hytrach na defnyddio'r term diffiniedig "Deddf 1990" a ddefnyddir mewn gwirionedd yng nghorff rheoliad 7.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn Atodlen 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Rigid **paper** containers" o dan y pennawd "Cartons and similar" ond mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu'r ystyr fel "Cynwysyddion **plastig** anhyblyg".

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 11(1), yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd "determine" fel "ganfyddir". Nodir y term "canfod" yng Ngeirfa yr Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol fel y term a ffefrir wrth gyfleu ystyr "determine" yng nghyd-destun canfod, sefydlu neu ddarganfod rhywbeth. Ond ymddengys ei fod yn anghywir yng nghyd-destun paragraff 11(1) pan fo "determine" yn cyfeirio at bennu swm y gosb ariannol sydd i'w thalu i'r rheoleiddiwr.

Nodir y term "pennu" hefyd yng Ngeirfa yr Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol fel y term a ffefrir wrth gyfleu ystyr "determine" mewn cyd-destun gwahanol pennu, gosod neu nodi swm ac ati. Felly, ymddengys fel y dylai "determine" fod wedi cael ei gyfieithu fel "bennu" yn hytrach na "ganfod" i gyfleu ystyr y term hwnnw yn gywir yng nghyd-destun paragraff 11(1) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 25(2) a (3) ceir cyfeiriadau a ddisgrifir yn anghywir fel "paragraff (1)(b)" ond dylid eu disgrifio fel "is-baragraff (1)(b)". Mae gwall tebyg yn digwydd ym mharagraff 28(2) lle ceir cyfeiriad a ddisgrifir yn anghywir fel "paragraff (1)(a)" ond dylid ei ddisgrifio fel "is-baragraff (1)(a)" – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 6.16 am gyfeiriadau cyfansawdd.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 25(3)(c), yn y testun Saesneg, defnyddir yr ymadrodd "determining the amount" mewn perthynas â swm y gosb. Fodd bynnag, yn y paragraff 26(c) canlynol, defnyddir ymadrodd ychydig yn wahanol, "establishing the amount", mewn perthynas â'r cosbau diffyg cydymffurfio a'r hysbysiadau adennill costau gorfodi.

Yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd "determining" ac "establishing" gan ddefnyddio'r un gair "bennu" sy'n cyfleu ystyr pennu neu osod/nodi swm i'w dalu yn y cyd-destun hwn. Mae'n awgrymu i ddarllenydd y testun Cymraeg fod yr un ystyr i "determining the amount" ac "establishing the amount" yn y paragraffau hynny. Os oes gwahaniaeth mewn ystyr, byddai wedi bod yn fwy priodol defnyddio term gwahanol yn nhestun Cymraeg paragraff 26(c), fel "gadarnhau" a ddefnyddir eisoes ym mharagraff 11(4) ar gyfer "establishing the amount". Byddai hyn wedi cyfleu ystyr "establishing" yn yr ystyr o nodi neu ganfod y swm o dan sylw.

Felly, nid yw cyfieithiad paragraffau 25(3)(c) a 26(c) yn nhestun Cymraeg Atodlen 2 yn cyfleu gwahanol ystyron posibl y testun Saesneg (os oes gwahaniaeth bwriadedig) yng nghyd-destun y paragraffau hynny. Yn ogystal, mae'n golygu bod y cyfieithiad o baragraffau 25(3)(c) a 26(c) yn nhestun Cymraeg Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn wahanol i'r hyn a geir yn y paragraffau cyfatebol yn yr Atodlen i Reoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023, er bod y testun Saesneg yn union yr un fath. Ond mae'n aneglur hefyd a yw'r gwahaniaeth o ran drafftio'r testun Saesneg trwy ddefnyddio "determining" ac "establishing" yn fwriadol oherwydd gwahaniaeth bwriadol yn eu hystyr neu anghysondeb yn y drafftio.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.